# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 9

TERFYNU ETC. CONTRACTAU MEDDIANNAETH

## PENNOD 1

TROSOLWG A DARPARIAETHAU RHAGARWEINIOL

*Terfynu a ganiateir, hawliadau meddiant a hysbysiadau yn ei gwneud yn ofynnol ildio meddiant*

### 148 Terfynu a ganiateir etc.

(1) Ni chaniateir terfynu contract meddiannaeth ond yn unol ag—

(a) telerau sylfaenol y contract sy'n ymgorffori darpariaethau sylfaenol a ddynodir yn y Rhan hon neu delerau eraill a gynhwysir yn y contract yn unol â'r Rhan hon, neu

(b) deddfiad.

(2) Nid oes dim yn yr adran hon yn effeithio ar—

(a) unrhyw hawl sydd gan y landlord neu ddeiliad y contract i ddad-wneud y contract, na

(b) gweithrediad cyfraith llesteirio.

(3) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract meddiannaeth; mae adran 20 yn darparu—

(a) bod rhaid ymgorffori'r adran hon, a

(b) na chaniateir ymgorffori'r adran hon ynghyd ag addasiadau iddi.

### 149 Hawliadau meddiant

(1) Ni chaiff y landlord o dan gontract meddiannaeth wneud hawliad i'r llys i adennill meddiant o'r annedd oddi wrth ddeiliad y contract ("hawliad meddiant") ond yn yr amgylchiadau a amlinellir ym Mhenodau 3 i 5 a 7.

(2) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract meddiannaeth; mae adran 20 yn darparu—

(a) bod rhaid ymgorffori'r adran hon, a

(b) na chaniateir ymgorffori'r adran hon ynghyd ag addasiadau iddi.

### 150 Hysbysiadau adennill meddiant

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â hysbysiad adennill meddiant y mae'n ofynnol i landlord ei roi i ddeiliad contract cyn gwneud hawliad meddiant.

(2) Rhaid i'r hysbysiad (yn ogystal â nodi'r sail ar gyfer gwneud yr hawliad)—

(a) datgan bwriad y landlord i wneud hawliad meddiant,

(b) rhoi manylion y sail, ac

(c) datgan ar ôl pa ddyddiad y gall y landlord wneud hawliad meddiant.

(3) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract meddiannaeth.